Grant newydd yn chwalu rhwystrau ymgysylltu



Blodau ym Mharc Victoria Caerdydd

Rydym yn lansio rhaglen grant gwerth £380,000 i annog pobl o gymunedau sydd wedi'u hallgáu a difreintiedig ledled Cymru i gysylltu â natur.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r rhaglen 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Chwalu Rhwystrau'.

> Rydym wrth ein bodd ein bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu'r rhaglen grant 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Chwalu Rhwystrau' i helpu i ailgysylltu pobl o gymunedau sydd wedi'u hallgáu a difreintiedig â'r byd naturiol.
> *Andrew White, Cyfarwyddwr y Gronfa Treftadaeth yng Nghymru*

Cymunedau amrywiol a difreintiedig

Gan gynnig grantiau o rhwng £30,000 a £100,000, bydd yr arian yn annog cymunedau gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n byw mewn ardaloedd trefol neu ger ardaloedd trefol, i gysylltu â'r natur ar garreg eu drws.

Bydd y rhaglen grantiau hefyd yn gallu darparu cyllid ar gyfer cymunedau yn y 30 y cant uchaf o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Dyma'r cymunedau sy'n cael eu taro waethaf gan faterion gan gynnwys tlodi, diweithdra, afiechyd a thai gwael.

Bydd 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Chwalu Rhwystrau' yn cyflogi arbennigwyr i weithio gyda phrosiectau neu grwpiau sydd heb wneud cais am grant o'r blaen a'u cefnogi wrth iddynt ymgeisio am gyllid.

Mae'n rhan o gynllun 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru sydd wedi ymrwymo i greu, adfer a gwella natur.

Pobl yn ymwneud gyda natur

Treulio amser gyda natur

"Nid yw erioed wedi bod yn bwysicach i ofalu am natur, helpu pobl i'w ddeall a threulio amser yn gwerthfawrogi ei bwysigrwydd ", meddai Andrew White, Cyfarwyddwr y Gronfa Treftadaeth yng Nghymru.

"Dyna pam ein bod wrth ein bodd eyn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu'r rhaglen grant 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Chwalu Rhwystrau' i helpu i ailgysylltu pobl o gymunedau sydd wedi'u hallgáu a difreintiedig â'r byd naturiol.

"Bydd y rhaglen yn ceisio ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl â natur a bydd hefyd yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau i ymgysylltu â natur a nodi atebion posibl i hyn."

Annog cymunedau i greu natur ar garreg eu drws

Rydym yn falch iawn o gefnogi lansiad y prosiect gwych hwn drwy ein rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a sefydlwyd i annog cymunedau i gymryd rhan yn y gwaith o greu natur ar garreg eu drws", meddai Julie James, y Gweinidog dros y Newid yn yr Hinsawdd.

"Rydym wedi gweld mwy o werthfawrogiad o natur yn ystod y pandemig a'r ffordd y mae'n sail i'n hiechyd, ein heconomi a'n llesiant ehangach.

"Byddwn yn annog unrhyw un sy'n gweithio i brosiect neu gr?p i weld a allech fod yn gymwys i gael cymorth."

Gardd drefol yn llawn blodau gwyllt

Rhagor o wybodaeth

Mae'r rhaglen grant 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Chwalu Rhwystrau' ar agor o ddydd Llun 19 Gorffennaf tan ddydd Iau 2 Medi.

Darllenwch ein canllawiau am ragor o wybodaeth.

Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

Un o drennau Trafnidiaeth Cymru

ng Nghymru

Natur yn ffynnu ym Mhen-Bre diolch i grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur